***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 218

# Gorchymyn Llywodraeth Leol (Diwrnod Arferol Etholiad) (Cymru) 2004

**Newid y diwrnod arferol yn 2004**

**2.**—(1) Er gwaethaf adran 37 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, yn 2004 yr un diwrnod â dyddiad y bleidlais yn etholiad cyffredinol Senedd Ewrop(**1**) a gynhelir y flwyddyn honno fydd diwrnod arferol etholiad cynghorwyr ar gyfer pob ardal llywodraeth leol yng Nghymru.

(2) O ganlyniad i'r newid i ddiwrnod arferol etholiad y darperir ar ei gyfer ym mharagraff (1) cyfnod swydd unrhyw gynghorydd ar gyfer ardal llywodraeth leol yng Nghymru a fyddai wedi ymddeol fel arall ar y pedwerydd diwrnod ar ôl diwrnod arferol gwreiddiol etholiad at bob diben yw'r cyfnod sy'n dod i ben ar y pedwerydd diwrnod ar ôl y diwrnod arferol etholiad newydd.

(3) Cyfnod swydd cynghorydd a etholir ar gyfer ardal llywodaraeth leol yng Nghymru ar ddiwrnod arferol etholiad yn 2004 y darperir ar ei gyfer ym mharagraff (1) at bob diben yw'r cyfnod sy'n dod i ben ar y pedwerydd diwrnod ar ôl yr etholiad cyffredin nesaf.

(4) O ganlyniad i'r newid i ddiwrnod arferol etholiad y darperiu ar ei gyfer ym mharagraff (1) ni fydd adran 16(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985(**2**) yn gymwys i unrhyw etholiadau cynghorwyr cymuned sydd i'w cynnal ar y diwrnod arferol ar gyfer etholiad cynghorwyr yn ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru yn 2004.

(5) Mae unrhyw gyfeiriad at 6 Mai 2004 mewn unrhyw orchymyn—

(a) sy'n cael ei wneud, mewn perthynas â Chymru, o dan adran 58(2) o Ddeddf 1972 (gweithredu argymhellion Comisiwn Ffiniau Lleol Cymru),

(b) sy'n cael ei wneud gan brif gyngor yng Nghymru o dan adran 28(3) o Ddeddf 1972 (sefydlu neu ddiddymu cyngor cymuned),

(c) sy'n cael ei wneud gan brif gyngor yng Nghymru o dan adran 57(6) o Ddeddf 1972 (newid y trefniadau etholiadol ar gyfer cyngor cymuned), neu

(ch) sy'n cael ei wneud, mewn perthynas â Chymru, o dan adran 87(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**3**) (pŵer i newid y blynyddoedd pan fo etholiadau cyffredin cynghorwyr i'w cynnal),

i'w ddehongli fel cyfeiriad at ddiwrnod arferol etholiad cynghorwyr yn 2004 ar gyfer ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru, fel y darperir ar ei gyfer yn unol â pharagraff (1) uchod.

---

(**1**) Mae dyddiad y bleidlais yn etholiad arferol Senedd Ewrop yn cael ei bennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag adran 4 o Ddeddf Etholiadau Senedd Ewrop 2002 (p. 24).

(**2**) 1985 p.50. Mae adran 16(1) yn darparu ar gyfer gohirio am 3 wythnos y bleidlais mewn etholiad cynghorwyr plwyfi os yw dyddiad y bleidlais mewn etholiad cyffredinol Senedd Ewrop a diwrnod arferol etholiad cynghorwyr yng Nghymru a Lloegr yr un fath.

(**3**) 2000 p.22.